**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **10 Gorffennaf 2002** |
| **Amser:** | **BORE** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**Diben**

1. Rhoi'r diweddaraf am y materion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

   **Argymhelliad**

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

   **Cefndir**

3. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 12 Mehefin 2002. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau Ewropeaidd neu Ryngwladol neu Lywodraethau Cenedlaethol ers y cyfarfod diwethaf.

   **Materion Cyffredinol yr UE**

4. **21-22 Mehefin-** Cyngor Seville. Y prif ddadl yn trafod materion mewnfudo. Bydd crynodeb yn cael ei drafod ar wahân yn ystod y cyfarfod.

   **Gweithgareddau'r Prif Weinidog**

5. **4 Gorffennaf 2002 .**Croesawodd y Prif Weinidog 'Melody Music' sefydliad sy'n hyrwyddo artistiaid Cymraeg dramor, pan ddaeth aelodau o'r sefydliad i ymweld ag adeiladau'r Cynulliad.
6. **9 - 12 Gorffennaf.** Ymweliad cyntaf Sheikh Juma o Dubai â Chymru i gwrdd â'r Prif Weinidog ac Andrew Davies, Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, a chynnal trafodaethau gyda MasnachCymru Rhyngwladol a rhai cwmnïau Cymreig.

   **Gweithgareddau'r Gweinidogion**

7. **13 Mehefin.** Gwnaeth Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, gyfarfod â'r

Gweinidog Betts, Gweinidog Busnes o dalaith New Brunswick a'i groesawu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Aeth y Gweinidog Betts i'r Cyfarfod Llawn ar y diwrnod hwn i glywed araith y Frenhines.

8. **6 - 10 Gorffennaf.** Teithiodd y Dirprwy Brif Weinidog i Efrog Newydd er mwyn cynrychioli Cymru mewn Gwyl Fwyd Ffansi yn y ddinas. Cymerodd gyfle hefyd i ehangu proffil rhyngwladol Cymru drwy fynychu nifer o weithgareddau eraill yn ystod y cyfnod hwn.

**<u>Ehangu. Ymweliadau â'r Cynulliad Cenedlaethol gan Ddirprwyaethau Gwledydd sy'n Ymgeisio.</u>**

9. **1 Gorffennaf**. Gwnaeth Consyliaid Anrhydeddus Latfia a Lithwania ymweld â'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 1 Gorffennaf. Bwriad yr ymweliad ydoedd ehangu'r cysylltiadau rhwng Cymru a'r ddwy wladwriaeth Baltig.

**<u>Ymweliadau MasnachCymru Rhyngwladol</u>**

10. **15-21 Mehefin**, Singapore, (ymweld â ComAsia), 4 Cwmni a **16-21 Mehefin**, Twrci (Istanbwl ac Ankara), 4 Cwmni. Yr oedd y ddwy daith yn rhan o'r rhaglen o deithiau cyffredinol a theithiau sector. Eu hamcanion ydoedd cynyddu allforion Cymreig i'r marchnadoedd neu cyflwyno cwmnïau Cymreig oedd yn allforio am y tro cyntaf. Yr oedd adroddiadau'r ddwy daith yn nodi eu llwyddiant a disgwylir y daw busnes newydd yn sgìl y teithiau.
11. **20 Mehefin.** <u>Ymweliadau Datblygu Busnes.</u> Andre Raposo dos Santos, Swyddog Masnachol, Llysgenhadaeth Prydain, Rio de Janeiro, Brasil. Sectorau Islif Nwy ac Olew, Per ac Adeiladu Llongau. Cynhaliwyd cyfarfod â Thîm MasnachCymru Rhyngwladol yn America, ac yna cyfarfodydd gyda chwmnïau o Gymru i drafod cyfleoedd masnachu rhyngwladol.
12. **21 Mehefin.** <u>Ymweliad Cyfarwyddo</u> Mr Christopher Robbins, FCO, Dirprwy Bennaeth Ymweliadau, Seoul, De Corea. Cyfarfod â swyddogion Cynulliad Cymru a hefyd â gweithwyr Awdurdod Datblygu Cymru yn Nh Principality.
13. **25 Mehefin.** <u>Ymweliad Cyfarwyddo</u>. Scott Campbell, DU, Is Gonswl Efrog Newydd. Cyfarfod â staff MasnachCymru Rhyngwladol, i drafod ei rôl, roi cyngor ar TG a meddalwedd. Cyfarfod gyda Phennaeth Gwasanaethau Rhyngwladol, Awdurdod Datblygu Cymru yn dilyn i drafod cysylltiadau a buddsoddi mewnol.
14. **27 Mehefin.** <u>Ymweliadau Datblygu Busnes.</u> Ms Anka Kumar, Swyddog Masnachol, Llysgenhadaeth Prydain, Slofenia. Sectorau - Bancio/Cyllid, Gwasanaethau Busnes, Telecom, Amgylchedd, Twristiaeth, Bwyd a Diod, Tecstiliau/Ffasiwn, Prosiectau Per. Rhoi cyngor masnachu ryngwladol i gwmnïau o Gymru.

15. **28 Mehefin.** Ymweliad gan ddirprwyaeth o Dalaith Tsieina a Fuji. Cyflwyniadau gan gynrychiolwyr o FasnachCymru Rhyngwladol ac Awdurdod Datblygu Cymru. Grp o Swyddogion Masnach Llywodraeth Tsieina a chwmnïau o Tsieina i godi ymwybyddiaeth o Gymru, trafod masnach ryngwladol a chyfleoedd buddsoddi mewnol a sefydlu perthnasau busnes.
16. **4 Gorffennaf.** Ymweliad Cyfarwyddo. Ymweliad Datblygu Busnes - Dominic Varle, Dirprwy Gonswl FCO, Consyliaeth Prydain, Efrog Newydd, Sectorau - Cyfathrebu a chyfryngau newydd. Cyfarfod â chynrychiolwyr Tîm MasnachCymru Rhyngwladol.
17. **5 Gorffennaf.** Ymweliad Datblygu Busnes. Anupam Jhunjhunwala, Swyddog Masnachol, Llysgenhadaeth Prydain, India: Sectorau - TGCh. Cyfarfod â thîm MasnachCymru Rhyngwladol yn y Dwyrain Canol a chwmnïau Cymreig i roi cyngor ar fasnach ryngwladol a chyflwr y farchnad.
18. **9 Gorffennaf.** Ymweliadau Datblygu Busnes. Mansour Taqi-Eddin, Swyddog Masnachol, Llysgenhadaeth Prydain, Sawdi-Arabia: Sectorau - Amaethyddiaeth. Cyfarfod â MasnachCymru Rhyngwladol a chwmnïau Cymreig i roi cyngor ar fasnach ryngwladol yn y farchnad.

**Ymweliadau Ewropeaidd/Rhyngwladol eraill**

19. 30 Mai i 7 Mehefin. (Nid oedd yr ymweliad hwn wedi ei gynnwys yn Adroddiad y Cadeirydd yn ystod cyfarfod diwethaf y Pwyllgor) Aeth Katherine Himsworth o WEFO ar ail ymweliad â Rwmania i yrru ymlaen rhai o'r syniadau a'r opsiynau ar drefniadau sefydliadol ar gyfer y cronfeydd strwythurol a drafodwyd yn ystod ei hymweliad cyntaf. Canolbwyntiodd yr ymweliad ar drafodaethau o fewn y Weinyddiaeth, yn enwedig ar drefniadau Rheoli Awdurdod/ Awdurdodau Talu/Cronfeydd Cydlynu; cwmpas y Rhaglenni Gweithredu Sectoraidd a Rhanbarthol arfaethedig, a'r canlyniadau yn nhermau cyrff rheoli; a strwythurau posibl yn y rhanbarthau. Yr oedd yr ymweliad yn un amserol iawn gan fod Llywodraeth Rwmania ar hyn o bryd yn rhoi'r flaenoriaeth i ddiwygio sefydliadol yn y wlad.
20. **13 Mehefin.** Gwnaeth Mrs Kerry Anne Chirakovski AS, gweinidog o'r wrthblaid yn Senedd De Cymru Newydd, ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol i astudio polisi iechyd yng Nghymru.
21. **14 Mehefin.**Gwnaeth Mr Haruhisa Takeuchi, Gweinidog a Chwnsler Cyffredinol Siapan, gwrdd â chynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru a MasnachCymru Rhyngwladol yn Llundain a chafodd gyflwyniad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. Gwnaeth hefyd ymweld â Chanolfan Ymwelwyr Bae Caerdydd.
22. 19 Mehefin. Gwnaeth Jacki Brown o'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol (EEAD) fynychu cyfarfod cyntaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMC) ar gyfer rhaglen Interreg IIIC Ardal y Gorllewin ym Mrwsel. Bydd y rhaglen yn hyrwyddo cydweithrediad rhwng y rhanbarthoedd ledled yr UE a gwledydd cyfagos gan gynnwys y gwledydd sy'n awyddus i gael eu derbyn.
23. **19-20 Mehefin.** Gwnaeth Ms Alexandra Berranini, Swyddog o Adran Materion Rhynglwadol Canada, ymweld â Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn astudio agweddau ymarferol datganoli yng Nghymru, gwaith y Cynulliad, Perthnasau Ewropeaidd ac Allanol y Cynulliad a'r Cynllun Iaith Gymraeg.
24. **25 Mehefin.** Gwnaeth Francis Cairns o EEAD fynychu y Pwyllgor cyntaf ar gyfer Monitro'r Rhaglen o rhaglen Interreg IIIB Adran yr Iwerydd yn Poitiers. Bydd y rhaglen yn hyrwyddo

datblygiad cytbwys dros Gymru ac Iwerddon gyfan a'r rhanbarthau o Loegr, yr Alban, Ffrainc, Portiwgal a Sbaen sydd wrth ochr yr Iwerydd.

25. **3 Gorffennaf** Gwnaeth Ms Mariot Leslie Llysgennad Prydain yn Norwy ymweld â Chaerdydd i astudio gweithdrefnau'r Cynulliad Cenedlaethol.

26. **9 - 10 Gorffennaf.**Gwnaeth Mr Inder Jit, Rheolwr Gyfarwyddwr a Golygydd "Indian News Feature Alliance" (INFA), Delhi, India, ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol i astudio datganoli yng Nghymru, gwaith y Cynulliad a'r berthynas â'r cyfryngau.

27. **10 - 11 Gorffennaf.** ·Gwnaeth Ms Crystal Zou, Swyddog y Wasg a Materion Cyhoeddus, Prif Gonswl Prydain - Guanzhou, Tsieina ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cael dealltwriaeth well o agweddau ymarferol datganoli yng Nghymru.

## Cydymffurfio

28. Sefydlwyd y Pwyllgor dan Reol Sefydlog 15. Mae Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (sydd wedi ei dirprwyo i Brif Weinidog Cymru) yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyried a gwneud y sylwadau perthnasol ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru. Cysylltwyd â Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

## Goblygiadau Ariannol

29. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn codi o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

Gorffennaf 2002